GISDA

CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2022-2023


Llais


Llesiant


Llety


Cyfleon


Cefnogaeth

# AMDANOM NI

Sefydlwyd GISDA yn 1985 er mwyn cynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yr ardal. Rydym yn elusen sydd yn darparu cefnogaeth ddwys a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus sydd yn byw yng Ngwynedd drwy brosiectau digartrefedd a llety, cyflogadwyedd, cydraddoldeb ag amrywiaeth, llais a therapiwtig.





## 3 Swyddfa ar draws Gwynedd

- Caernarfon
- Pwllheli
- Blaenau Ffestiniog

01286 671153 www.gisda.org gisda@gisda.co.uk @gisdacyf

Cyngor Gwynedd Council
Ariennir gan Llywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WCVA CGGC Active Inclusion Fund / Cronfa Cynhwysiant Gweithredol
UK Government
Gyda chefnogaeth | Supported by BBC Plant mewn Angen / Children in Need
Garfield Weston Foundation
WCVA CGGC
Taith
Cronfa Gymunedol / Community Fund



# GAIR GAN Y CADEIRYDD

## Llinos Angharad Owen

Ar ran Bwrdd Rheoli GISDA mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad blynyddol sydd yn amlinellu gwybodaeth am yr elusen yn ystod y flwyddyn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brysur a llwyddiannus iawn i'r elusen.
Mae holl staff GISDA'n gweithio'n galed a diflino i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth, cynhaliaeth a'r cyfle gorau ar eu taith mewn bywyd.
Rhoddwyd cyfle amhrisiadwy i'r bobl ifanc drwy waith yr holl brosiectau a'r teithiau tramor.

Mae gwrando ar brofiadau'r bobl ifanc yn ein cyfarfodydd wedi bod yn agoriad llygaid i ni gyd fel aelodau bwrdd. Rhoddodd hyn gyfle i'r bobl ifanc rannu eu profiadau gyda sawl cyfarfod emosiynol iawn. Tydi bob dim ar bapur ddim bob amser yn rhoi'r darlun llawn ond pan mae person ifanc yn adrodd hanes eu bywyd a sut mae'r elusen wedi eu cynorthwyo, tydi'r papur a'r hyn sydd arno yn golygu dim. Mae bywydau'r bobl ifanc yma wedi bod yn rolocoster o brofiadau anodd, emosiynol ac ingol iawn. Tydan ni ddim yn gwybod nes yr ydym yn clywed yr hanesion.

Mae'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan GISDA yn amhrisiadwy. Pe byddai darpariaeth GISDA yn dod i ben byddai Gwynedd yn Sir lawer iawn tlotach. Carwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff a hynny ar bob lefel. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn amhrisiadwy. Braf iawn yw gweld staff egnïol, brwdfrydig ac ymroddedig yn gweithio er mwyn cyrraedd un gôl sef helpu pobl ifanc Gwynedd.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc Gwynedd.

*Llinos Angharad Owen*

– Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gisda



# GAIR GAN Y BRIF WEITHREDWRAIG

## Siân Elen Tomos

Bu'n flwyddyn brysur, heriol a chyffrous i gyd ar yr un pryd i ni yn GISDA eto eleni. Rydym wedi datblygu sawl cyfle newydd ac ar ganol sawl prosiect arall. Ar ben hynny mae ein rhwydwaith a'n cysylltiadau wedi ehangu ar draws y byd i sicrhau ein bod yn dysgu gan eraill ond hefyd ein bod yn rhannu ein hymarferion da gydag eraill.

Rydym yn parhau i weithredu o'n 3 prif ganolfan ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon yn ogystal â mynd allan at bobl ifanc sydd methu ein cyrraedd. Fe wnaethom beilota prosiect Tîm o Amgylch y Person Ifanc (TAPI) gyda chymorth ariannol y Gronfa Adnewyddu Gymunedol: ein neges glir yw bod rhaid i bobl ifanc gael popeth o fewn cyrraedd yn weddol rwydd i sicrhau canlyniadau da - hynny yw, mae'n rhaid cael cartref, gwaith, llwybr bws cyhoeddus, cefnogaeth a gwasanaethau angenrheidiol yn agos at ei gilydd gan nad yw'n fforddiadwy nac yn ymarferol bosibl llwyddo os ydynt yn bell oddi wrth ei gilydd. Rydym hefyd yn ymgyrchu dros bwysigrwydd gweithio yn holistaidd o amgylch y person ifanc gan gynnig amrediad eang o wasanaethau i gwrdd gyda'u holl anghenion tra maent yn derbyn cefnogaeth. Mae ein darpariaeth yn amrywio fel gwelwch yn yr adroddiad hwn ac mae'r cyfan yn cyfrannu at adeiladu hyder person ifanc i ddilyn eu breuddwydion a chyrraedd lle maent yn dymuno bod ar eu taith trwy fywyd.


Ni fyddai dim o'n gwasanaethau yn bosibl heb ein harianwyr a'n staff. Hoffwn ddiolch i'r comisiynwyr am eu hymddiriedaeth ynom i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel – rydym yn hynod falch ein bod wedi cyflawni cymaint ag rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus.

Ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Mae'r angerdd, y brwdfrydedd, yr empathi a'r gofal a roddir i bobl ifanc gan ein staff ar adeg pan fo pobl ifanc yn ymddiried ac yn dibynnu yn llwyr arnom yn gwbl amhrisiadwy. Mae'r bobl ifanc yn dyst cyson i'w llwyddiant. Diolch o galon i bob un am eu cyfraniad ac am y gwahaniaeth pwysig sydd yn cael ei gwneud i fywydau bob dydd, diolch yn fawr iawn. Diolch arbennig hefyd i'n Cadeirydd Llinos Owen ac Aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu hamser gwirfoddol, eu cefnogaeth, eu diddordeb a'u hawydd i weld GISDA yn cyflawni ein Strategaeth uchelgeisiol fydd yn cael ei lansio yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae gennym gynlluniau cyffrous iawn ar y gweill yn 2023-2024 ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio gyda'n partneriaid i gyrraedd y nod o weld digartrefedd yn dod i ben. Diolch arbennig hefyd i'r Tîm Rheoli am fy nghynorthwyo gydag amrediad eang o heriau a datblygiadau. Un tîm ydym yn GISDA o'r bobl ifanc i'r staff a'r Bwrdd ac rydym yn gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd a chyflawni llawer gan ein bod yn gwrando a pharchu ein gilydd a gwastad yn barod i ymateb i her newydd. Bu'n fraint a phleser mawr i ni gyd fel tîm gydweithio, cyd gynhyrchu a chefnogi bob person ifanc oedd angen cymorth yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr ar gyfer yr holl gynlluniau cyffrous yn 2023-2024 yn arbennig gweld datblygiad prosiect 'Lle Da' ar Y Maes yng Nghaernarfon yn dod i derfyn ac yn barod i ni symud i mewn.

*Siân Elen Tomos*

–Prifweithredwraig Gisda




**Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio'n galed i daro'r nod ar ein blaenoriaethau. Dyma i chi beth rydym wedi'u cyflawni:**

## IAITH CYMRAEG

- Mae gannom gynllun Iaith Gymraeg sydd wedi ei chymeradwyo gan Gomisiynydd Y Gymraeg.
- Creasom animeiddiad sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi ein Cynnig Cymraeg yma yn GISDA.
- Cyrhaeddon y rhestr fer Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2022, ar gyfer wobr "Y Gymraeg Mewn Gwaith Ieuenctid".

## CYNALADWYEDD

- Mae gwaith wedi dechrau ar ein hadeilad ar y maes yng Nghaernarfon. Mae'r adeilad yn y broses o gael ei drawsnewid i 4 fflat ar gyfer pobl ifanc, caffi hyfforddiant, gweithle i staff GISDA a hwb amlasiantaethol i gefnogi pobl ifanc Gwynedd.

## AMGYLCHEDD

- Ehangu gwaith Caffi Creu i gynnal sesiynau codi sbwriel
- Mae gennym gynllun gweithredol amgylcheddol blynyddol

## LLESIANT STAFF

- Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ennill gwobr lefel arian gan Cymru Iach ar Waith
- Cyhoeddwyd polisi tal salwch, polisi yswiriant marwolaeth tra'n gyflogedig a pholisi menopos yn y gwaith newydd.
- Penodwyd dau bencampwr llesiant yn y gweithle.
- Cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau llesiant tîm: padl fyrddio, Glan Llyn, diwrnod crefftau a llawer mwy.
- Datblygu partneriaeth newydd gyda Byw'n Iach fel bod ein staff yn cael cynnig pecyn aelodaeth ar gyfradd ostyngol.

## CYDRADDOLDEB AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

- Ehangu ein prosiect LHDTC+ am dair blynedd ychwanegol gyda chefnogaeth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cyrraedd y rownd derfynol o Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2022 am ein gwaith hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Rydym wedi cyflwyno polisi trawsnewid a niwroamrywiaeth yn y gweithle.

# CYMORTH TAI



Mae'r prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Hwn yw prosiect mwyaf GISDA, gyda 62 person ifanc yn derbyn cefnogaeth gennym ar draws Gwynedd ar unrhyw un adeg.

Ar hyn o bryd mae gennym gartrefi yng Nghaernarfon, Felinheli, Llanrug, Blaenau Ffestiniog a Dolgellau.

Mae'r unedau hyn yn lletya ac yn darparu cartref i 31 o bobl ifanc. Mae 26 o'r rhain yn sengl, a phump yn deuluoedd sy'n cael eu cefnogi mewn tai teulu. Rydym hefyd yn cefnogi 31 o bobl ifanc eraill yn ein cymunedau gydag atgyfeiriadau yn dod o bob ardal yng Ngwynedd.

Mae ein holl staff yn darparu pecyn cymorth wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, a ddarperir trwy ein model cymorth therapiwtig ein hunain (Model FI). Prif amcan ein cefnogaeth yw rhoi cymorth i'r bobl ifanc feddu'r sgiliau, dealltwriaeth, cyfrifoldeb a'i hawliau i allu symud ymlaen i fyw yn annibynnol. Mi fyddem yn ceisio cyrraedd yr amcanion yma drwy ddiwallu eu hanghenion, datblygu eu cryfderau a gwytnwch i symud ymlaen o'n gwasanaeth.

**266** PERSON IFANC WEDI CAEL EU CEFNOGI

- **30** PERSON IFANC WEDI CAEL EU CEFNOGI YN EIN HOSTELI
- **9** PERSON IFANC WEDI CAEL EU CEFNOGI YN EIN TAI I RIENI IFANC
- **30** PERSON IFANC WEDI CAEL EU CEFNOGI YN EIN FFLATIAU SYMUD YMLAEN
- **104** PERSON IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH SYMUDOL
- **87** PERSON IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH DRWY WASANAETH GALW MEWN

"Heb help GISDA fyswn i ddim yn annibynnol, fyswn i ddim yn dechrau coleg, fyswn i heb ddechrau mynd i'r gym a fyswn i ddim hefo fflat fy hun, hefyd fyswn i ddim di gallu gwella iechyd meddwl fi gan fod fi wedi bod yn strygglo lot ond mae staff GISDA bob tro wedi gneud siwr dwi'n ok"

**82%** O BOBL IFANC A DDERBYNIODD CEFNOGAETH GYDAG ANGHENION IECHYD MEDDWL

**31%** O BOBL IFANC A DDERBYNIODD CEFNOGAETH GYDAG ANGHENION IECHYD CORFFOROL












# CYFEIRIADAU I`R PROSIECT


Yn y flwyddyn ddiwethaf gafodd 95 o gyfeiriadau newydd eu gwneud i GISDA.

**100% o'r cyfeiriadau yma gydag anghenion am lety.**



## O LE DAETH Y CYFEIRIADAU?

- Hunangyfeirio: 53
- Timau Iechyd Meddwl a Iechyd: 4
- Teulu a Ffrindiau: 10
- Gwasanaethau Cymdeithasol: 14
- Adran Digartrefedd Cyngor Gwynedd: 3
- Prosiectau eraill GISDA: 5
- Addysg- Ysgolion neu Colegau: 6




41% o gyfeiriadau yn "sofa surfing" neu ar y stryd, sydd yn 11% yn fwy na flwyddyn ddiwethaf.

# GWASANAETH GALW MEWN

Mae ein gwasanaeth galw mewn yn wasanaeth holl bwysig sydd yn ymateb i bobl ifanc mewn argyfwng. Mae 3 sesiwn yn cael eu cynnal ar draws y sir yn wythnosol ac mae'n bosib cael cyngor a chefnogaeth gyda chysylltu ag adran ddigartref, cais am fudd daliadau, cysylltu gyda mudiadau eraill, cefnogaeth gydag iechyd meddwl, llety, addysg a mwy. Rydym hefyd yn ymateb yn syth os oes angen bwyd, dillad, cerdyn sim i ffon, gofod cynnes a mwy! Er mai “gwasanaeth galw mewn” yr ydym yn rhedeg mae bob person ifanc yn derbyn ar gyfartaledd 3 sesiwn cefnogaeth er mwyn eu cael ar ben ffordd.

**87** person ifanc wedi derbyn cefnogaeth

### SESIYNAU GALW MEWN YN CAEL EU CYNNAL YN:

- Caernarfon
- Blaenau Ffestiniog
- Pwllheli





# PROFIAD *EMILY* GYDA GWASANAETH GALW MEWN



Daeth *Emily* i'n sesiwn galw heibio oherwydd bod ei pherthynas yn chwalu gyda chyn-bartner ac roedd yn 'sofa surffing'. Roedd yn dioddef o bryder difrifol ac yn aros am asesiad ar gyfer Awtistiaeth a BPD ac ni allai gysylltu â'r tîm iechyd meddwl oherwydd nad oedd ganddi unrhyw gredyd ffôn.

Gwnaethom ddarparu Cerdyn Sim i *Emily* fel ei bod yn gallu cyfathrebu ag asiantaethau i dderbyn cymorth. Fe wnaethom ei chefnogi i ffonio’r tîm iechyd meddwl a hefyd ffonio asiantaeth tai gyda nhw gan nad oedd ganddynt hyder i wneud hynny ar ei phen ei hunain. Rhoddwyd *Emily* mewn llety diogel trwy'r Adran Ddigartrefedd Cyngor Gwynedd ac roedd yn cael cyswllt dyddiol â'n Cydlynydd Cyfeiriadau.

Bu staff GISDA yn eirioli ar ran *Emily* am 3 wythnos gyda’r Adran Digartrefedd tra roedd *Emily* ar restr aros GISDA am gymorth. Ar ôl 3 wythnos agorwyd *Emily* i wasaneth cymorth symudol GISDA. Treuliodd staff tua 15 awr yn ei chefnogi wyneb yn wyneb, drwy alwadau ffôn a negeseuon drwy gymorth galw heibio.








# PROSIECT ATAL DIGARTREFEDD



Mae prosiect Atal Digartrefedd a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn risg uchel o ddod yn ddigartref. Nod y Cydlynydd yw atal digartrefedd drwy gefnogi'r unigolyn a chwilio am lety fforddiadwy gan hefyd sicrhau bod eu holl anghenion cefnogaeth yn cael ei ymateb boed hynny drwy gefnogaeth y prosiect neu eu cyfeirio at y gefnogaeth fwyaf addas. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn a'r Adran Digartrefedd, Cyngor Gwynedd.

Mae unigolyn yn derbyn cefnogaeth ddwys i'w cynorthwyo i dderbyn llety argyfwng, sefydlu budd daliadau, cyllidebu, mynediad i fanciau bwyd a grantiau ar gyfer dillad, cefnogaeth iechyd meddwl, cefnogaeth cyflogadwyedd, codi hyder a chymhelliant a mwy. Bydd y gweithiwr hefyd yn parhau i gefnogi'r unigolyn ar ôl gael llety i geisio am grantiau ar gyfer dodrefn, i helpu gyda biliau a chyllidebu ac i helpu gyda sgiliau byw'n annibynnol.

**46** PERSON IFANC WEDI CAEL EU CEFNOGI

- **18** PERSON IFANC YN 'SOFA SURFFING'
- **5** PERSON IFANC YN BYW AR Y STRYD
- **8** PERSON IFANC MEWN LLETY DROS DRO
- **4** PERSON IFANC MEWN LLETY RHENT BREIFAT
- **11** PERSON IFANC GYDA TEULU MEWN LLETY ANADDAS




Roedd dros 17 o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth yn rhieni ifanc.

## £11,840

Gwerth £11,840 o grantiau yn uniongyrchol i bobl ifanc i gynorthwyo gyda rhent a blaendal llety, dillad, bwyd, nwyddau cychwynnol i dŷ a mwy!

## 62

62 cyfeiriad ymlaen wedi cwblhau er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn derbyn cymorth ychwanegol arbenigol drwy gydweithio gyda'r Cydlynydd Atal Digartrefedd.

**100%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth yn ddigartref

**57%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth gydag anghenion iechyd meddwl

**37%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth yn ddi-waith

**30%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth gydag anghenion neu anableddau dysgu

**20%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth wedi dioddef o drais yn y cartref

**10%**

o bobl ifanc a dderbyniodd cefnogaeth gyda phroblemau cyffuriau neu alcohol

*"Fe wnaeth Helen fy helpu gyda gwaith papur a stwff. Gofalodd amdanaf i – yn aml iawn dydy pobl ddim yn gwneud hynny. Roedd yn fy mharchu a'n gwrando arnaf. Heb gefnogaeth Helen fyddwn wedi crio! Roedd y gefnogaeth yn gysur mawr - roeddwn mewn lle isel iawn ar y pryd - ond yn teimlo fy mod yn ddiogel ac y gallwn fynd at Helen unrhyw bryd - hyd yn oed pan ddywedais fy mod yn feichiog fe wnaeth hi fy llongyfarch a rhoi sicrwydd i mi y bydd popeth yn iawn - diolch yn fawr am bopeth!! "*

# PROSIECT OL-OFAL

**120**

o bobl ifanc Ôl-Ofal wedi cael cefnogaeth arbenigol gennym

**Gall gadael gofal fod yn un o'r cyfnodau anoddaf ym mywyd person ifanc, felly mae'n hanfodol eu bod wedi'u paratoi'n briodol ac yn barod ar gyfer yr her.**

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth i unigolion rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol a ble mae cyfrifoldeb i barhau i'w cefnogi wedi iddynt adael eu lleoliad gofal. Mae'r Cynghorwyr Personol yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i baratoi'r person ifanc ar gyfer y eu taith i fod yn oedolion annibynnol. Bydd bob person ifanc yn derbyn cynllun llwybr sydd yn canolbwyntio ar lety, addysg, hyfforddiant, iechyd, teulu, perthnasoedd cymdeithasol a'u hawliau. Mae'r Gweithiwr Addysg a Chyflogaeth yn sicrhau fod y bobl ifanc yma sydd yn gadael gofal yn cael y gefnogaeth ychwanegol i'w cefnogi i barhau i gadw eu gwaith, mynychu coleg neu unrhyw hyfforddiant.




# PROFIAD *ANNA* A ÔL-OFAL

Lleolwyd *Anna* mewn cartref plant ymhell o'i theulu a'i ffrindiau pan oedd hi'n ifanc. Roedd hi'n oedolyn ifanc deallus a oedd eisiau'r cyfle i fyw'n annibynnol ac i ddatblygu sgiliau annibynnol ymhellach. Ym mis Medi 2021, mewn partneriaeth â GISDA a Thîm 16+ Cyngor Gwynedd, roedd modd cynnig ty i *Anna*, lle'r oedd hi'n gyfrifol yn llawn am y biliau, siopa bwyd, coginio a glanhau. Gwnaeth hyn i gyd wrth barhau i weithio'n agos gyda'i Chynghorydd Personol a'i Gweithiwr Allweddol i'w chefnogi drwy'r broses. Trodd *Anna* yn 18 oed ym mis Mawrth 2023 ac aeth ymlaen i lety annibynnol llawn ym mis Ebrill 2023. Gyda chefnogaeth y prosiect hwn, ei Chynghorydd Personol a'i Gweithiwr Allweddol, mae *Anna* nawr yn gallu rheoli ei heiddo rhent preifat ei hun yn llwyddiannus ac yn gweithio'n llawn amser. Mae *Anna* yn parhau i gysylltu'n rheolaidd â'i Chynghorydd Personol ac mi fydd yn gwneud hynny tan iddi fod yn 25 oed.

**2**

Mae gannom 2 dy sy'n cefnogi pobl ifanc ôl-ofal gydag anghenion llety.

# PROSIECT RHIENI IFANC

**Mae ein Prosiect Rhieni Ifanc yn darparu cefnogaeth i rieni ifanc 16-25, gyda'u holl anghenion o lety i gyflogaeth.**

Mae ein gweithwyr cymorth yn hyrwyddo hawliau rhieni ifanc, eu grymuso a'u cefnogi wrth weithio i godi eu hyder, ac yn eu cynorthwyo gyda gwahanol broblemau. Mae'r gweithwyr cymorth yn cynnal sesiynau un-i-un ac yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr ac ymwelydd iechyd pan fo angen. Maent hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau ceisiadau grant amrywiol i helpu'r bobl ifanc i fynychu coleg neu gynorthwyo gyda chostau teithio neu ofal plant. Er bod adnoddau o fewn y prosiect yn gyfyngedig, mae gwaith ein staff wedi bod yn rhagorol.

**76**

Rhiant ifanc wedi derbyn cefnogaeth

**10**

Taith wedi ei chynnal i'r rhieni ifanc a'u plant

**8**


Rhiant wedi cael cefnogaeth i ddod o hyd i lety mewn tai teulu.

**1**

Sesiwn rhiant a babi yn cael ei chynnal yn wythnosol.

*"Dwi ddim yn gwybod lle fyswn i heb key worker fi, mai wedi helpu fi gael ty a dangos i fi sut i gwneud biliau a pethau felna. Swni mashwr yn homelss ac bysa babi fi di gael ei tynnu oddiwrth fi. Medraim diolch digon."*









# PROSIECT LHDTC+

Sefydlwyd clwb LHDTC+ GISDA yn 2017 gan ei fod wedi bod yn amlwg ers rhai blynyddoedd bod canran uchel o bobl ifanc oedd yn cael eu cyfeirio at brif wasanaeth digartref yn bobl ifanc o'r gymuned LHDTC+ ond nid oedd cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Erbyn hyn mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth gyda chlybiau wedi eu sefydlu yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ynghyd a chynorthwyo a chynghori ysgolion a chymunedau i gychwyn clybiau eu hunain!

Yn ychwanegol i'r clybiau mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth ar faterion LHDTC+ i bobl ifanc ag i brosiectau eraill o fewn GISDA. Maent hefyd wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ar draws y sir!

Cronfa Gymunedol y Loteri sydd wedi ariannu'r prosiect am y ddwy flynedd diwethaf ag rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian o'r gronfa, Pawb a'i Le, i barhau am y 3 mlynedd nesaf!














"Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n dod o hyd i rywle lle roeddwn i'n teimlo y byddwn i'n ffitio i mewn."

"Diolch i'r clwb hefyd dwi wedi ffeindio allan am wasanaethau eraill."

Y newid mwyaf i mi yw fy mod yn fwy hyderus, yn mynegi fy hun yn fwy y tu mewn a thu allan i'r clwb. Roeddwn i mewn lle drwg pan ddechreuais i fynd i'r clwb a nawr, rydw i wedi ffeindio fy lle hapus, rydw i wedi gwneud ffrindiau.

"Mae gennyf un rheol i fy hun, dim pwys beth sy'n mynd ymlaen yn fy mywyd, rwyf o hyd dal i fynychu'r clwb yn wythnosol. Dwi'n gwybod ei fod yn helpu, does ddim byd negyddol yno."

**138**

o nosweithiau clwb, parti Nadolig, taith i Falchder a chynhadledd wedi eu cynnal

**74**

aelodau cyson i'r clybiau

**352**

5 o wirfoddolwyr wedi rhoi 352 o oriau i'r prosiect

Ynghyd â'n clybiau, rydym yn cynnig hyfforddiant achrededig a sesiynau ymwybyddiaeth ar faterion LHDTC+ ac yn eu cyflwyno i ysgolion, colegau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc.

**9**

Sesiwn hyfforddiant wedi eu cynnal

- **5** SESIYNAU WEDI'U CYNNAL MEWN YSGOLION
- **2** SESIWN AR GYFER HEDDLU GOGLEDD CYMRU
- **2** SESIWN AR GYFER STAFF GISDA



# PROSIECT LHDTC+ GISDA AR Y MAP

Ym mis Mawrth 2023, teithiodd dau o'n gwirfoddolwyr anhygoel Kayley (nhw/they/them) a Klaire (hi/she/her) i Efrog Newydd i fynychu a chyflwyno yng Nghynhadledd Cymorth Technegol Flynyddol Canolfan Ali Forney.

Fel aelod o'r rhaglen Cymorth Technegol cawsom wahoddiad i roi cyflwyniad ar ein gwaith a rhannu arfer gorau ar sut rydym yn ymgysylltu â phobl ifanc LHDTC+ mewn ardaloedd gwledig.

Wrth siarad am eu profiad, dywedodd Kayley:

*"Roedd yn fraint i mi gael cynrychioli GISDA yn Efrog Newydd flwyddyn yma. Cefais gyfle i siarad yn gyhoeddus, sydd ddim yn rhan o'm swydd arferol ac yn siawns i gael allan o'm 'comfort zone' a dysgu sgiliau newydd, gan gynnwys creu'r cyflwyniad, sydd eto ddim yn rhywbeth dwi wedi arfer gwneud, ond rwan dwi'n teimlo'n hyderus yn fy ngallu i wneud hyn. Dwi mor falch fy mod wedi cael y cyfle i fynychu'r gynhadledd, mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy."*

Hefyd yn bresennol yn y gynhadledd roedd sefydliadau LHDTC+ o Iwerddon, Lloegr, El Salvador, Gwlad Pwyl a Nairobi.

FEDRA'i
Law yn llaw at iechyd meddwl

## HWB FEDRA'I GISDA

**Mae Hwb Fedra'I GISDA yn darparu cymorth cynnar, therapiwtig a hawdd i bobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r Hwb yn cefnogi ac ategu at wasanaethau arbenigol y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol.**

Drwy'r cynllun yma gall pobl ifanc cael mynediad i amryw o wasanaethau yn cynnwys:

- Gweithdai amrywiol
- Cefnogaeth 1:1
- Hybiau galw mewn
- Cyfeirio ymlaen
- Ymyraethau therapiwtig
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunan laddiad

**265**

Unigolyn wedi derbyn cefnogaeth iechyd meddwl dros y flwyddyn ddiwethaf

**656**

o oriau wedi eu gwirfoddoli gan cwnselwyr, therapydd celf, cynorthwyydd galw mewn a chynorthwyydd cefnogaeth emosiynol

**18**

Person wedi gwirfoddoli eu hamser i gefnogi unigolion a'u hiechyd meddwl

## FEDRA'I AR DAITH

Bu GISDA yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2021-2022) gan Raglen Gwella Dargedu CAMHS Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Galluogodd y cyllid hwn ni i dreialu prosiect arloesol a chreadigol gyda'r nod o gefnogi ymyrraeth gynnar i wella iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Yn dilyn trafodaethau penderfynom fynd â phobl ifanc i Lundain am 2 noson. Roedd y daith hon yn cefnogi iechyd a lles emosiynol pobl ifanc.

**AELODAU'R GRŴP:**

**25**

POBL IFANC YN CAEL EU CEFNOGI GAN GISDA

**6**

STAFF CEFNOGAETH GISDA

**"Rwy'n teimlo'n hyderus"**

**23% CYNYDD**

MEWN POBL IFANC YN TEIMLO MWY HYDERUS

**"Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir"**

**34% CYNYDD**

MEWN POBL IFANC YN MEDDWL YN FWY CLIR



# PROFIAD *JAC* GYDA FEDRA'I



Cefnais fy nghyfeirio at Fedra'I GISDA gydag iselder dwys a gorbryder difrifol, roeddwn hefyd yn poeni bod gennyf ADHD. Dechreuais gyda sesiynau 1 i 1 gyda'r Cysylltydd Fedra'I lle roeddwn yn gallu rhannu fy nheimladau. Yn syth, deimlais yn gyfforddus a gwnaeth y Cysylltydd Fedra'I gwneud fi deimlo y gallwn rannu popeth ond hefyd bod help ar gael i mi.

Pan roeddwn yn ychydig mwy cyfforddus ac yn hyderus, dechreuais fynd i'r sesiynau wythnosol i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig fel celf, llenyddiaeth greadigol a chael y cyfle i gyfarfod pobl newydd. Roedd hyn yn wych ac wedi gwneud byd o les i mi gan fy mod i'n aml yn unig ac roedd yn gyfle i mi gymdeithasu a chyfathrebu a phobl eto.

Bellach rwyf yn mynd i'r ddau sesiwn ar Ddydd Llun a Dydd Mercher yn wythnosol. Rwyf wedi gwneud ffrindiau ac rwyf yn teimlo'n hollol ddiogel, mae'n amgylchedd lle medraf orffwys ac nid oes neb yn barnu. Mae'r sesiwn yn agored iawn ac yn trafod eu problemau, mae hyn yn rhoi cysur i mi gan nad wyf yn teimlo'n wahanol i eraill o gwbl. Yn ogystal, rwyf yn cael cymorth gan y Cysylltydd Fedra'I pan fyddaf yn cael fy nharo gan faterion brys. Rwyf hefyd wedi cael fy nghyfeirio at OT Fedra'I sy'n fy helpu gydag asesiad ADHD.

**Nid wyf yn teimlo fel fy mod yn unig bellach, mae gennyf rywle i fynd am gymorth. Roeddwn yn arfer teimlo'n isel iawn y rhan fwyaf o'r dyddiau ac yn crio yn aml, rwy'n dal i gael diwrnodau isel ond nid yr un mor aml ag yr oeddwn a bellach mae gennyf y sgiliau a'r help i ymdopi â phethau'n llawer gwell, rwy'n llawer hapusach.**











# ACADEMI CYFLEON



Mae'r Academi Cyfleon yn brosiect sy'n cynnig cymorth hanfodol i bobl ifanc, gan eu helpu i ennill y sgiliau, hyder a chymwysterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu nodau mewn cyflogaeth a byw'n annibynnol. Mae ein canolfannau galw heibio yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli ar agor i unrhyw unigolyn ifanc sy'n 16-25 oed sydd angen cyngor, cymorth neu i ofyn cwestiynau.

Mae ein rhaglen yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion unigryw pob unigolyn. Rydym yn cynnig cymorth cyflogaeth therapiwtig, gweithgareddau i adeiladu hyder a sgiliau cyflogaeth hanfodol fel creu CV, technegau cyfweld a dysgu sut i ymddwyn yn y gweithle. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, gan gynnwys rheoli amser, coginio, glanhau a defnyddio cludiant cyhoeddus.

**Rydym yn deall bod taith pawb yn unigryw, a dyna pam mae ein dull wedi'i deilwra i anghenion a nodau unigol y person ifanc. Trwy ein rhaglen, bydd yn cael mynediad at amrywiaeth o adnoddau a chymorth, gan gynnwys mentora un-i-un, gweithdai, a sesiynau hyfforddi.**

**124**

Person ifanc wedi derbyn cefnogaeth

**43** PERSON IFANC WEDI SYMUD YMLAEN I WAITH

**13** PERSON IFANC WEDI SYMUD YMLAEN I WIRFODDOLI





**52**

Sesiynau Byw'n Annibynnol wedi eu cynnal

**52**

Sesiynau creu CV wedi cwblhau

**101**

Achrediadau Agored Cymru wedi eu cwblhau

**98**


Hyfforddiant arall wedi eu cwblhau

# GISDA GWIRFODDOLI

Dros y blynyddoedd, mae gwirfoddoli wedi dod yn rhan hanfodol o weithrediadau dyddiol GISDA. Mae ein gwasanaethau'n ffynnu gyda chefnogaeth pobl ifanc a phobl o'r gymuned sy'n barod i roi eu hamser i gefnogi pobl ifanc bregus yng Ngwynedd.

Drwy'r prosiect hwn rydym wedi annog pobl ifanc i wirfoddoli ymysg ein prosiectau a chynorthwyo gyda gwaith LLAIS, creu ymgyrchoedd, cynorthwyo gyda thasgau dyddiol yn yr hosteli
, cynnal sesiynau, cynorthwyo staff gyda gweithdai, mentora cyfoed a mwy. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar geisio annog pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig, yn enwedig ar ôl cyfnod Cofid, er mwyn integreiddio'r bobl ifanc i'r gymuned leol a chreu cysylltiadau newydd.

Mae Prosiect Gwirfoddoli GISDA hefyd yn annog pobl o'r gymuned i wirfoddoli gyda ni yma yn GISDA, gan weithredu fel mentoriaid i'r bobl ifanc a chymorth i'r prosiectau.



**80** o bobl wedi gwirfoddoli eu hamser yn y flwyddyn ddiwethaf



**2,396**

Mae'r 80 person yma wedi rhoi 2,396 awr o'u hamser i wirfoddoli









*"Rwy'n gweld gwirfoddoli yn y clwb yn llawer o hwyl! Mae'n her hefyd, ond mae'r bobl ifanc yn wirioneddol ddifyr i weithio gyda ac mae wedi bod yn brofiad gwych ffurfio bondiau gyda nhw a chael fy ngalluogi i mewn i'w byd, rydw i wedi Mae'n debyg mai gwylio person ifanc yn magu hyder a theimlo'n gyfforddus yn mynegi ei hun yw fy hoff beth am wirfoddoli gyda'r clwb." - Kayley- Gwirfoddolwr Clwb Ieuenctid LGBTQ+*

# GISDA CREADIGOL



Mae ein gweithgareddau celfyddydol amrywiol yn annog pobl ifanc i fynegi eu hunain a'u teimladau mewn ffordd greadigol anffurfiol. Mae GISDA yn credu yn gryf mewn rhoi amryw o gyfleon flasu a thymor hir i bobl ifanc allu magu hyder, ennill sgiliau newydd, ehangu eu gorwelion a chyfarfod eraill!

Mae Plant Mewn Angen yn ariannu prosiect NABOD sydd yn brosiect ar y cyd gyda FRÂNWEN. Mae NABOD yn brosiect hir dymor fydd yn cynnig cyfleon amrywiol i bobl ifanc i gyd-greu theatr sy'n dyrchafu llais yr unigolyn ac sy'n ennyn newid cymdeithasol.

**73**

sesiwn wedi eu cynnal yn gymysgedd o theatr, celf weledol, tripiau i orielau gwahanol, animeiddio, ysgrifennu'n greadigol, cerddoriaeth, cynhyrchu a llawer mwy!

**82%**

o bobl ifanc yn nodi effaith bositif ar eu llesiant ar ôl cymryd rhan mewn cyfres o sesiynau.

*"Dwi erioed di neud unrhyw fath o actio o'r blaen, a gan fedawl fod hwn ddim yn actio proffesiynnol - neshi wir fwynhau cael go ar neud rhywbeth dwi erioed wedi neud o'r blaen"*

*"Really hwyl cael dyfeisio perfformiad byr fy hun a bod yn greadigol"*














# CAFFI CREU GISDA



Nod prosiect Caffi Creu ydi codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff a'r economi gylchol drwy weithdai, mentrau ac ymgyrchoedd ar ailddefnyddio, ailgylchu ac ail-greu. Mae'r prosiect yn anelu at addysgu pobl ifanc y dyfodol a'u harfogi â'r sgiliau maent eu hangen arnynt i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol.

Ariennir y prosiect gan y Gronfa Treth Tirlenwi gan WCVA.

**31**

Mae 31 gweithdy Caffi Creu wedi eu cynnal yn y flwyddyn ddiwethaf

## MATH O WEITHDAI A GYNHALIWYD:

-Dylunio poteli dwr ail ddefnydd

-Printio ar fagiau ail ddefnydd

-Creu bin compost

-Gwnïo a thrwsio dillad

-Hel garlleg gwyllt i goginio

-Sesiynau codi sbwriel

-Garddio a thyfu bwyd

-Celf yn defnyddio gwastraff









## CAFFI CREU YN Y GYMUNED

Drwy gydol y flwyddyn mae'r proseict wedi cyd-weithio gyda nifer o fudiadau ar hyd Gwynedd, wrth iddynt osod allan eu cenhadaeth i godi ymwybyddiaeth am ailgylchu, ail-ddefnyddio a uwchgylchu nwyddau.



### CAFFI CREU X MSPARC

Rydym yn cydweithio gyda MSPARC i gynnal gofod "MAKERS SPACE" yng Nghaernarfon. Gyda pheiriannau creu mwg, creu crysau T ac argraffwr 3D, mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd a chael hwyl!



### CAFFI CREU X PONTIO'R CENEDLAETHAU

Cyfres o weithdai i bobl ifanc GISDA a'r genhedlaeth hyn. Cyfle i'r cenedlaethau cyfnewid sgiliau a dysgu gan ei gilydd. Fel rhan o'r peilot rydym wedi cynnal gweithdai ffeltio, gwnïo, coginio a phrintio.

# LLAIS POBL IFANC

**Mae LLAIS yn un o nodau strategol GISDA ac rydym yn gweithio i sicrhau bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r gwaith, yn cael ei glywed ac yn cyd gynhyrchu syniadau newydd!**

Rydym yn cyflogi Swyddog Ymgynghori a Llais sydd yn cynnal ein Bwrdd Pobl Ifanc. Sefydlwyd y Bwrdd Pobl Ifanc i sicrhau fod lleisiau'r bobl ifanc yn rhan ganolog o'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn ac i greu cyfleon iddynt feithrin eu hunan hyder trwy fynegi eu hunain am eu profiadau, y gymuned a dysgu mwy am wleidyddiaeth leol a chenedlaethol.

**Pwy yw ein haelodau?**

Defnyddiwyr gwasanaeth o'r hosteli a'r fflatiau, pobl ifanc "floating support", pobl ifanc o'r prosiect Ôl-Ofal ac aelodau o'r Clwb LHDTC+

*"Mae hwn yn teimlo fel gofod saff i ymddiried"*

**25** Cyfarfod Bwrdd wedi cynal

**36** o bobl ifanc wedi mynychu'r bwrdd

**250** awr o wirfoddoli



# SENEDD IEUENCTID CYMRU

Mae GISDA yn Sefydliad Partner Senedd Ieuenctid Cymru am y ddwy flynedd nesaf ac fe gynhaliodd y Bwrdd Pobl Ifanc Hustings Tachwedd 2021 i ethol cynrychiolydd ifanc rhwng 11-18 oed. Dros y flwyddyn ddiwethaf, etholwyd Keira i gynrychioli lleisiau pobl ifanc GISDA mewn materion yn ymwneud ag iechyd meddwl, hawliau LHDTC+ a digartrefedd yng nghyfarfodydd Senedd Cymru.

SENEDD IEUENCTID CYMRU / WELSH YOUTH PARLIAMENT — SEFYDLIAD PARTNER — PARTNER ORGANISATION



# PROSIECT TAITH

*'Profiad newid bywyd'*

**Rydym wedi bod yn hynod o ffodus i dderbyn cefnogaeth gan Taith i gynnal teithiau i bobl ifanc bregus. Mae Taith yn brosiect dwy flynedd, yn yr amser hwn byddwn yn gallu cynnig cyfle i'n pobl ifanc i deithio i'r Ffindir, Gwlad Pwyl,Gwlad Belg, Efrog Newydd a Chernyw.**

Mae Taith yn rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol a sefydlwyd i greu cyfleon sy’n newid bywydau pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ym mhedwar ban byd. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i wella mynediad i bobl ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a phobl o gefndiroedd difreintiedig.


Y nod yw i BOB dysgwr ledled Cymru gael mynediad at gyllid a chyfleon Taith.

Dechrau flwyddyn hon mi aeth criw o 4 person ifanc a 3 aelod staff i ymweld â'r Ffindir i ddysgu sut mae'r Ffindir yn defnyddio natur fel ymyrraeth iechyd meddwl. Treuliodd y bobl ifanc penwythnos llesiol yn y goedwig yn Isoranta, lle cawsant y profiad o sgïo traws gwlad, cerdded yn y coed ac adeiladu pabell. Gwnaeth y gweithgareddau yma helpu'r bobl ifanc i fagu hyder, gwellau sgiliau cyfathrebu a dysgu sut y gall bod ym myd natur helpu eu lles.




*“Mae'r daith hon wedi newid fy mywyd yn llwyr. Rwyf wedi esblygu a dod allan o'r profiad hwn yn ddyn gwell”*













# TAPI- TÎM O AMGYLCH Y PERSON IFANC

**Roedd TAPI yn brosiect wedi ariannu gan Gronfa Adnewyddu Gymunedol Cyngor Llywodraeth y Deyrnas Unedig.**

Nod TAPI oedd cymryd arweiniad gan bobl ifanc mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill yn y maes i wella gwasanaethau i bobl ifanc yng Ngwynedd. Fel rhan o'r peilot roedd pobl ifanc yn derbyn Gweithiwr Allweddol a oedd yn eu cefnogi ar eu taith i fyw'n annibynnol ac i gyflogaeth - boed hynny gyda'u hiechyd meddwl, codi hyder, sgiliau byw'n annibynnol, grantiau, cefnogaeth emosiynol, sgiliau cyflogadwyedd a mwy!

Mae nifer o fudiadau yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc ond o safbwynt yr unigolyn mae dod o hyd i'r hyn sydd ei angen yn gallu bod yn anodd iawn. Nid yw chwaith yn mynd yn haws pan fydd cefnogaeth yn cael ei dderbyn - mae hi yna yn anodd iawn i berson ifanc gydlynu'r holl gefnogaeth a'r mudiadau o'u cwmpas heb rwydwaith cymorth a rhywun i arwain y ffordd. Mae gwaith ymchwil TAPI wedi profi hyn a dangos y wir angen am y math yma o brosiect - lle bod amryw o ymyraethau a chyfleon ar gael i bobl ifanc ynghyd a Gweithiwr Allweddol i'w gynorthwyo ac arwain drwy gyfnod anodd mewn bywyd.

**Mae GISDA yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y prosiect a'r gwaith ymchwil ac yn cwblhau ceisiadau am arian i barhau gyda'r gwaith yn symud ymlaen....**

**304**

o bobl ifanc wedi cael budd or cynllun

**£29,000 +**

dros £29,000+ mewn grantiau i bobl ifanc i helpu gydag unrhyw rwystrau i waith

**245**

o achrediadau neu hyfforddiant wedi eu gwblhau

**Roedd 2 strand i'r peilot yma sef ymchwil ac ymyraethau.**

## YMCHWIL

**Roedd yr gwaith ymchwil a gwerthuso yn cynnwys:**

- Prifysgol Bangor – gwerthusiad o effaith pecyn ymyraethau prosiect peilot TAPI ar bobl ifanc.
- Sylfaen Cymru – gwerthusiad o'r prosiect peilot yn ei gyfanrwydd.
- Mantell Gwynedd – adroddiad ar werth cymdeithasol ymyraethau Cymorth Tai GISDA.
- Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru – archwiliad ar waith ymgynghori a chyd-gynhyrchu GISDA efo pobl ifanc a phrosiect arbennig i gyd-gynhyrchu Lle Da gyda phobl ifanc.

## YMYRAETHAU

**208 sesiwn grwp yn cynnwys:**

- Prosiectau creadigol a llesiant yn cynnwys gwaith theatr, gwaith celf, beicio, gweithgareddau awyr agored a mwy
- Sesiynau a chefnogaeth cyflogadwyedd
- Sgiliau byw'n annibynnol
- Sesiynau ymwybyddiaeth LHDTC+
- Bwrdd Pobl Ifanc
- A llawer mwy

"Mae'r gwerthusiad o brosiect TAPI yn awgrymu bod prinder gweithwyr allweddol, o ganlyniad mae risg fod anghenion rhai bobl ifanc heb eu diwallu.  Mae meithrin perthynas dda gyda'r gweithwyr allweddol yn gwbl greiddiol i ddatblygiad sgiliau personol a phroffesiynol cyfranogwyr i'r dyfodol a'u hymdeimlad o lwyddiant. Mae bobl ifanc angen 'person' sefydlog, sydd yn gwrando, y gellir ymddiried ynddynt ac sydd yn 'gafael llaw' i'w 'tywys' drwy systemau a gwasanaethau. "

**(Adroddiad Ymchwil:TAPI – Cwmni CELyn)**

**Mae GISDA yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y prosiect a'r gwaith ymchwil ac yn cwblhau ceisiadau am arian i barhau gyda'r gwaith yn symud ymlaen....**










"Mae'r ymchwil hwn ynghyd â thystiolaeth meintiol a gasglwyd gan GISDA yn cynnig tystiolaeth gref o ran effeithiolrwydd cynllun TAPI ym meysydd sgiliau a chyrhaeddiad dysgu, hyder, lles, chyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol, a chyfranogiad."

**(Ymchwil Gwerthuso TAPI GISDA – Adroddiad Llawn, Dr Myfanwy Davies, Gwilym Sion ap Gruffudd, Prifysgol Bangor)**

*"Mae GISDA wedi helpu fy nyfodol i fod yn llewyrchus. Rwy'n meddwl am bethau yn wahanol, mae gen i obeithion uwch ar gyfer y dyfodol"*

# GISDA a TAPI


















## DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH | THANK YOU FOR YOUR SUPPORT!

Diolch o galon i bawb yn y gymuned am eich cefnogaeth i GISDA. Mae eich rhoddion o nwyddau, rhoddion ariannol, amser wirfoddoli ac unrhyw ddull o gefnogaeth arall, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl ifanc Gwynedd. Rydym yn ddiolchgar iawn am eich haelioni ac am eich cefnogaeth barhaus. Ni allem ei wneud heboch chi. Diolch yn fawr!

A heartfelt thank you to everyone in the community for your support of GISDA. Your donations of goods, financial donations, volunteering time and any other form of support, have made a huge difference to the lives of young people in Gwynedd. We are very grateful for your generosity and for your continued support. We couldn't do it without you. Thank you very much!















# DIWRNODAU LLESIANT STAFF | STAFF WELLBEING DAYS

Mae GISDA yn cydnabod pwysigrwydd lles staff, ac felly rydym yn cynnal diwrnodau lles staff rheolaidd. Trwy roi amser penodedig i weithwyr ganolbwyntio ar eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol, dangoswn ein hymrwymiad i greu amgylchedd gwaith cefnogol. Mae'r diwrnodau lles hyn yn caniatáu i weithwyr adennill eu nerth, lleihau straen a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu lles cyffredinol fel tîm.

GISDA recognizes the importance of staff wellbeing, and therefore we hold regular staff welfare days. By giving employees dedicated time to focus on their physical, mental and emotional health, we demonstrate our commitment to creating a supportive work environment. These wellbeing days allow employees to regain their strength, reduce stress and participate in activities that promote their overall wellbeing as a team.